Llywodraeth Cymru
Welsh Government

The Commissioner for Public Appointments

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Penodi Aelod Annibynnol i Addysg a Gwella lechyd Cymru (AaGlC)

Dyddiad cau: 2 Ionawr 2026

CYNNWYS

1.	Cyflwyniad	3
2.	Disgrifiad y swydd	4-6
3.	Manyleb y person	7-8
4.	Ffeithiau allweddol am y swydd hon	9-14
5.	Cymhwysedd	15
6.	Ynglŷn â'r sefydliad	16

1. CYFLWYNIAD

Negas gan Jermey Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Senedd Cymru

Diolch ichi am ddangos diddordeb yn swydd Aelod Annibynnol o Fwrdd Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Nawr yn fwy nag erioed, mae'r cyfraniad a wneir gan ein penodeion cyhoeddus yn hollbwysig i sicrhau Bwrdd sy'n gwella'n barhaus ac sy'n frwd dros gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau iechyd lleol o safon er mwyn mynd i'r afael ag anghenion lleol.

Os oes gennych ddiddordeb yn y rôl hon ac yr hoffech wybod mwy am rôl bwysig yr Aelodau Annibynnol, cysylltwch â Dr Chris Jones, Cadeirydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Bydd ef yn fwy na pharod i drafod y rôl hon â chi ar fy rhan.

2. DISGRIFIAD Y SWYDD

Mae Byrddau GIG yn chwarae rhan allweddol wrth lunio strategaeth, gweledigaeth, pwrpas a diwylliant y sefydliad. Maent yn dwyn y sefydliad i gyfrif am ddarparu gwasanaethau, ansawdd a diogelwch, perfformiad, gwerth am arian a datblygu a gweithredu strategol.

Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod risgiau i'r sefydliad, staff a'r cyhoedd yn cael eu rheoli'n effeithiol. Dan arweiniad Cadeirydd annibynnol, ac yn cynnwys cymysgedd o Aelodau Gweithredol ac Annibynnol (a elwir hefyd yn Gyfarwyddwyr Anweithredol mewn rhai sefydliadau), mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb ar y cyd am berfformiad y sefydliad.

Mae Aelodau Annibynnol yn gweithio ochr yn ochr â Chyfarwyddwyr Gweithredol fel aelodau cyfartal o'r Bwrdd unedol. Maent yn rhannu cyfrifoldeb am y penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd ac am lwyddiant y sefydliad wrth arwain gwella gofal iechyd i bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

Cefnogi'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wrth arfer cyfrifoldeb ac atebolrwydd personol mewn perthynas â:

Strategaeth

- Cyfrannu at drafodaeth adeiladol ynghylch datblygiad strategol a deunydd arall a materion arwyddocaol sy'n wynebu'r sefydliad.
- Rhoi barn annibynnol a chyngor ar faterion yn ymwneud ag ansawdd, strategaeth, gweledigaeth, perfformiad, adnoddau a safonau ymddygiad.
- Herio'n adeiladol, dylanwadu a gweithio gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn datblygu cynigion ar strategaethau o'r fath.
- Ynghyd ag aelodau eraill o'r Bwrdd, darparu arweinyddiaeth o fewn fframwaith o reolaethau darbodus ac effeithiol, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y sefydliad.

Cynllunio

- Craffu ar gynllun tymor canolig (neu flynyddol) tair blynedd y sefydliad, gan sicrhau ei fod yn sefydlu amcanion clir i gyflawni'r strategaeth; yn cwmpasu'r adnoddau ansawdd, gweithlu, gweithredol ac ariannol angenrheidiol i'r sefydliad gyflawni ei amcanion ac adolygu perfformiad yn rheolaidd yn erbyn y cynllun.

Pherfformiad

- Derbyn, adolygu a chymhwyso craffu priodol ar ddiogelwch, ansawdd, perfformiad, y gweithlu a data ariannol a gwybodaeth i gymharu cyflawniadau yn erbyn targedau a, lle bo angen, cefnogi gweithredu adferol.
- Ceisio amcanion heriol ar gyfer gwella perfformiad.

- Sicrhau rheolaeth effeithiol a, lle bo'n berthnasol, rhoi trefniadau comisiynu ar waith i sicrhau hyfywedd ariannol y sefydliad.

Llywodraethu

- Craffu ar ymrwymiad y sefydliad i'r safonau llywodraethu uchaf, fel ei fod yn gweithredu er budd y boblogaeth a'r partneriaid y mae'n eu gwasanaethu ac yn cael ei weld yn atebol am y gwasanaethau a ddarperir a'r adnoddau a ddefnyddir.
- Ceisio sicrwydd bod rheolaethau mewnol a systemau rheoli risg yn gadarn ac wedi'u rheoli'n dda.
- Dadansoddi a dehongli gwybodaeth a ddarperir i'r Bwrdd, ceisio eglurhad, sicrwydd pellach a thriongli gwybodaeth, lle bynnag y bo modd.
- Sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'i Reolau Sefydlog, ei bolisïau a deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol.

Diwylliant ac Ymddygiad

- Dangos Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (a elwir hefyd yn Egwyddorion Nolan) anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.
- Cefnogi diwylliant sy'n annog staff, cleifion, teuluoedd a'r cyhoedd i godi pryderon sydd wedyn yn cael sylw priodol.
- Croesawu a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer poblogaeth, cleifion, staff a rhanddeiliaid y sefydliad, gan adlewyrchu a dysgu o brofiadau personol a phrofiadau byw eraill.
- Dangos ac annog y safonau uchaf o ran uniondeb a llywodraethu, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r sefydliad yn cydymffurfio ag arfer gorau a gofynion statudol.
- Darparu arweinyddiaeth dosturiol weladwy wrth gefnogi a hyrwyddo diwylliant iach i'r sefydliad ac adlewyrchu hyn, a gwerthoedd y sefydliad, yn eu hymddygiad eu hunain.
- Cofleidio a hyrwyddo pwysigrwydd dwyieithrwydd a diwylliant Cymraeg ar bob gweithgaredd sefydliadol.
- Dod â phrofiad, gwybodaeth a dylanwad proffesiynol, cyfredol a gorffennol, i waith y Bwrdd i hyrwyddo arloesedd, chwilfrydedd, ac i herio normau.

Ymgysylltu

- Deall, gyda chefnogaeth briodol, busnes y sefydliad drwy gymryd rhan weithredol.
- Adeiladu a chynnal cysylltiadau partneriaeth cryf rhwng partneriaid y sefydliad a grwpiau rhanddeiliaid i hyrwyddo gweithrediad effeithiol gweithgareddau'r sefydliad.

Gweithgareddau'r Bwrdd

- Cymryd rhan lawn yng ngwaith y Bwrdd a'r Pwyllgorau, gan gynnwys ymgysylltu cyn ac ar ôl y cyfarfod ac yn y gwerthusiadau blynyddol i gefnogi llywodraethu da.
- Mynychu Pwyllgorau'r Bwrdd cadeirio a chyfarfodydd ad hoc eraill y Bwrdd lle bo hynny'n berthnasol.
- Mynychu sesiynau datblygu'r Bwrdd a chyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol eraill.
- Ar y cyd ag Aelodau eraill y Bwrdd a, lle bo hynny'n berthnasol, cyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â'r Gronfa Elusennol, y mae'r Bwrdd yn gweithredu ohoni fel yr ymddiriedolwr corfforaethol.
- Tybio a hyrwyddo rôl hyrwyddwr mewn meysydd ffocws sydd naill ai'n cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru neu a neilltuir gan y sefydliad.
- Cynnal arfarniad perfformiad personol blynyddol, gan gymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant a datblygu ychwanegol a amlygir o ganlyniad i'r broses werthuso i sicrhau bod amcanion personol yn cael eu cyflawni.

3. MANYLEB Y PERSON

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid i chi allu dangos bod gennych y priodoleddau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol ar gyfer cael eich penodi. Mae rhai o'r rhain yn haws i'w gweld yn ystod y cam ymgeisio tra bod eraill yn cael eu harchwilio'n well yn y cyfweliad (gweler isod). Bydd cyfle hefyd yn cael ei gymryd mewn cyfweliad i archwilio rhai o'r meini prawf yn fanylach yn eich datganiad personol.

Adran A
Meini prawf hanfodol i'w dangos mewn datganiad personol

Gwerthoedd

- Ymrwymiad i ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, eu gofalwyr a'u teuluoedd, ein staff a'n rhanddeiliaid.

Sgiliau

- Y gallu i weithio ar y cyd ac fel rhan o dîm i gyflawni nodau cyffredin.
- Y gallu i ddarparu her a chraffu annibynnol tra'n cynnal perthynas adeiladol.
- Y gallu i gymhwyso mewnwelediad strategol a/neu brofiad byw er budd y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, ein staff a'n rhanddeiliaid.

Meini prawf dymunol i'w dangos yn y datganiad personol pan fo'n berthnasol.

Profiad

- Profiad a dealltwriaeth o'r sector addysg ac iechyd (GIG)
- Hanes llwyddiannus o brofiad strategol, ar lefel bwrdd yn un o sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector.

ADRAN B

Meini prawf hanfodol i'w dangos yn y cyfweliad.

Gwerthoedd

- Ymrwymiad i gadw at Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) a gwerthoedd y sefydliad.

Sgiliau

- Dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac ymrwymiad iddynt, gan gynnwys y gallu i fyfyrio ar eich profiadau byw eich hun a dysgu oddi wrthynt

Meini prawf dymunol i'w dangos yn y cyfweliad.

Sgiliau

- Sgiliau cyfathrebu gwych.

Profiad

- Profiad arweinyddiaeth a rheoli newid strategol sy'n gallu cael ei ddangos gan gynnwys newid diwylliant.
- Tystiolaeth a dealltwriaeth o lywodraethu effeithiol
- Dealltwriaeth o reoli risg a systemau rheolaeth fewnol a sicrwydd

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol; fodd bynnag, bydd disgwyl i bob ymgeisydd ddangos ymrwymiad tuag at yr iaith a'r diwylliant, a dangos arweinyddiaeth i gryfhau a hyrwyddo darpariaeth gwasanaeth ddwyieithog o fewn y GIG yng Nghymru (gweler gwybodaeth a phrofiad hanfodol uchod).

Pan fo ymgeisydd yn gallu dangos ei fod yn bodloni'r meini prawf dymunol dylai roi syniad o'i sgiliau yn erbyn y lefel ganlynol o sgil:

Dealltwriaeth	Gallu deall y rhan fwyaf o sgyrsiau sy'n ymwneud â gwaith
Darllen	Gallu darllen ambell air ac ymadrodd syml a'u deall
Siarad	Gallu sgwrsio mewn rhai sgyrsiau sy'n ymwneud â gwaith
Ysgrifennu	Gallu ysgrifennu negeseuon syml am bynciau bob dydd

4. FFEITHIAU ALLWEDDOL AM Y SWYDD

Lleoliad:
Mae prif swyddfa HEIW wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Ty Dysgu, Nantgarw, CF15 7QQ. Bydd cyfarfodydd bwrdd fel arfer yn cael eu cynnal yn Ty Dysgu. Bydd rhai cyfarfodydd yn digwydd yn rithiol ac mewn lleoliadau amrywiol ar draws Cymru i adlewyrchu swyddogaethau cenedlaethol y sefydliad. Mae HEIW yn cydnabod y gall fod achosion lle mae gweithio o bell yn angenrheidiol ac yn gweithio'n weithredol gyda'r Aelodau i ystyried ceisiadau a sefydlu trefniadau ar sail achos wrth achos.

Ymrwymiad Amser:
Mae'r rôl yn seiliedig ar ymrwymiad tybiannol o bedwar (4) diwrnod y mis o leiaf. Fodd bynnag, bydd hyn yn amodol ar ofynion sefydliadol ac yn aml mae'n uwch na'r gofyniad sylfaenol.

Hyd y penodiad:
Bydd penodiad cychwynnol am gyfnod o hyd at bedair blynedd, fodd bynnag, sylwch fod y penodiad hwn yn amodol ar ganlyniad yr Adolygiad Llywodraethu ac Atebolrwydd.

Tâl:
£9,360 y flwyddyn.

Bydd gennych hawl hefyd i gael ad-daliad, os cyflwynir derbynebau, ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth a fydd yn codi yn sgil busnes y Bwrdd. Rhaid hawlio treuliau o fewn tri mis o fynd i gostau, oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Gellir talu costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill hefyd, os cyflwynir derbynebau, yng nghyd-destun costau ychwanegol eraill a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd.

GWNEUD CAIS

I wneud cais, ewch i dudalen swyddi gwag Llywodraeth Cymru.
https://cais.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-4/brand-7/xf-509f77e961d6/candidate/jobboard/vacancy/6/adv/

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd wag Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf y gwnewch chi gais am swydd, bydd angen ichi gofrestru ar system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru. Gallwch wedyn gadw golwg ar hynt eich cais presennol, ac unrhyw geisiadau yn y dyfodol, drwy eich cyfrif cofrestredig ar-lein.

https://cais.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-4/brand-7/xf-509f77e961d6/candidate/register

Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV gyda'ch ffurflen gais ar-lein.

Mae'r tîm Penodiadau Cyhoeddus yn gweithredu trefniadau recriwtio di-enw. Ni fydd gwybodaeth bersonol allweddol, gan gynnwys enw a chyfeiriad ymgeisydd, yn cael ei dangos i'r panel recriwtio yn ystod y broses sifftio. Bydd gwybodaeth bersonol benodol hefyd yn cael ei chuddio oddi wrth y panel cyf-weld os nad yw'n berthnasol i'r asesiad. Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i ddileu rhagfarn, ac i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw'ch cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person (**Adran A**). **Sylwer:** fel y nodir uchod, nid oes angen ichi gynnwys eich holl sgiliau a phrofiad yn y datganiad personol. Rhoddir cyfle hefyd i ddangos y sgiliau a'r profiad yn **Adran B** yn y cyfweliad.

Dylai'r datganiad gynnwys enghreifftiau sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf. Dylai'r enghreifftiau hyn ddisgrifio beth oedd eich rôl, sut yr aethoch ati i gyflawni canlyniad penodol a sut y byddech yn defnyddio'r profiad hwn yn y rôl rydych yn ymgeisio amdani. Mae croeso ichi ddefnyddio enghreifftiau o brofiad proffesiynol a phrofiad bywyd.

Ni ddylai'ch datganiad personol fod dros **1000 o eiriau**.

Curriculum Vitae (CV)

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion cryno am eich swydd bresennol neu eich swyddi diweddaraf a'ch dyddiadau yn y swyddi hynny. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol blaenorol neu bresennol. **Ni ddylai'ch CV fod yn fwy na thair tudalen o hyd.**

Geirda

Rhowch ddau enw cyswllt y gallwn gysylltu â hwy i ofyn am eirda. Dim ond ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus y byddwn yn gwneud hyn.

Er mwyn cadw'r safonau uchaf o ran uniondeb a phriodoldeb, ni allwn dderbyn Aelodau'r Senedd na gweithwyr Llywodraeth Cymru fel canolwyr ar gyfer ceisiadau am aelodaeth o gyrff cyhoeddus.

Y broses ddethol

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael cymorth i wneud penderfyniadau gan Banel Asesu Cynghorol. Bydd y panel hwn yn cynnwys Cadeirydd y Bwrdd, Aelod Annibynnol o'r Panel; a aelod o'r Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru. Dim ond yr ymgeiswyr y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn eich CV a'ch datganiad personol yn unig, i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Er hynny, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad (gweler isod), a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweliad.

Fe gewch e-bost oddi wrth ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a fyddwch wedi cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni meini prawf y swydd. Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni meini prawf y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i Ysgrifennydd y Cabinet, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall Ysgrifennydd y Cabinet ddewis cwrdd â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cwrdd â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi'u cyf-weld yn cael gwybod hynt y broses honno.

Yr amserlen

Dyddiad cau'r hysbyseb	**2 Ionawr 2026**
Sifftio	**26 Ionawr 2026**
Cyfweliadau	**27 Chwefror 2026**
Cadarnhau'r penodiad	**Mawrth 2026**
Dechrau'r penodiad	**Ar unwaith**

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth cael cyrff cyhoeddus sy'n adlewyrchu amrywiaeth eang o ddiwylliannau, hunaniaethau a chefndiroedd. Rydym yn annog ceisiadau o bob rhan o gymdeithas ac rydym am benodi o'r gronfa dalent ehangaf a mwyaf amrywiol.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb heb ystyried oedran, statws priodasol (gan gynnwys priodas rhwng pobl o'r un rhyw) a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, hunaniaeth rhywedd, amhariad neu gyflwr iechyd, hil, crefydd neu gred, na beichiogrwydd.

Rydym wedi ymrwymo i recriwtio menywod, pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl ac aelodau o'r gymuned LHDTC+, sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn swyddi ar Fyrddau cyrff cyhoeddus ar hyn o bryd.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu anablu pobl sydd ag amhariad neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio laith Arwyddion Prydain.

Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd, sef “amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd”.

Rydym yn gwarantu cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni’r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni’r ‘meini prawf sylfaenol’ yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni’r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a’ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai ‘hanfodol’.

Os hoffech wneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus drwy e-bostio PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru i roi gwybod iddynt.

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio laith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod cyn gynted â phosibl i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gadw at y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus a Chyfarwyddydau Codau Ymddygiad ac Atebolrwydd ar gyfer Byrddau'r GIG a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Rheolwyr y GIG 2006.
Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus (gov.uk)

Datblygiad Personol ac Adolygu Perfformiad

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi cyfraniad y rhai a benodir i rolau cyhoeddus ac mae am sicrhau, ar y cyd â Chyrff GIG Cymru, fod deiliaid swyddi yn gallu manteisio ar lawer o gyfleoedd datblygu personol. Ar ôl penodi, cytunir, gyda'r Cadeirydd/Ysgrifennydd y Cabinet, ar gynllun ac amcanion datblygu personol. Bydd gofyn i'r ymgeiswyr llwyddiannus ddilyn rhaglen gynefino.

Gwrthdaro Buddiannau

Pan fyddwch yn gwneud cais, bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'r rôl a'r cyfrifoldebau, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r sefydliad yr ydych yn gwneud cais iddo.

Trafodir unrhyw wrthdaro buddiannau yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddewis i gyfweliad. Bydd hyn yn cynnwys chwiliadau ar y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd, ond ni fydd yn gyfyngedig i hynny. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd canfyddiadau unrhyw chwiliadau diwydrwydd dyladwy yn cael eu trafod ymhellach yn y cyfweliad.

Penodi

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn eich penodi i'r rôl, a bydd y llythyr hwnnw'n cadarnhau telerau'r penodiad. Bydd eich penodiad yn amodol ar broses gwirio geirdaon, a gynhelir gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gynhelir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'n orfodol i ymgeiswyr llwyddiannus fynychu Rhaglen Gynefino GIG Cymru ar gyfer Aelodau Annibynnol a bydd gofyn ichi fynychu'r cwrs nesaf sydd ar gael.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth ynghylch y rôl, cysylltwch â Dafydd Babb, Ysgrifennydd Bwrdd: e-bost: dafydd.bebb@wales.nhs.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Cwestiynau

Os oes gennych gwestiynau neu angen mwy o gwybodaeth am eich cais, cysylltwch â tîm penodi cyhoeddus penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Yn ogystal, gallwch ysgrifennu at:

Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
Llawr Gwaelod
1 Ffordd y Ceffylau Gwarchod
Llundain
SW1A 2HQ

neu trwy e-bost yn publicappointments@csc.gov.uk

5. CYMHWYSTRA

Bydd person yn cael ei anghymhwyso rhag cael ei benodi os yw:

a. wedi cael ei gollfarnu yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd o fewn y pum (5) mlynedd blaenorol ac wedi rhoi dedfryd o garchariddo (boed wedi'i gohirio ai peidio) am gyfnod o ddim llai na thri (3) mis.
b. wedi cael ei ddyfarnu'n fethdalwr neu wedi gwneud compownd neu drefniant gyda'u credydwyr.
c. wedi ei ddiswyddo, ac eithrio oherwydd dileu swydd, neu ddiffyg adnewyddu contract cyfnod penodol, o unrhyw gyflogaeth am dâl gyda chorff gwasanaeth iechyd, ac;
d. sy'n berson y mae ei gyfnod yn ei swydd fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr corff gwasanaeth iechyd wedi'i derfynu oherwydd nad yw ei benodiad er budd y gwasanaeth iechyd, am beidio â bod yn bresennol mewn cyfarfodydd neu am beidio â datgelu buddiant ariannol.
e. wedi bod yn ystod y flwyddyn flaenorol yng nghyflogaeth Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre neu Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (ac ar gyfer Bwrdd Iechyd addysgu Powys lle mae'r rôl yn ymwneud â'r sefydliad hwnnw).

Nid yw cyflogaeth gyda chyrff GIG eraill yng Nghymru, ar hyn o bryd, yn golygu bod person wedi'i anghymhwyso rhag cael ei benodi yn unol â'r Rheoliadau perthnasol yn ymarferol. Polisi Llywodraeth Cymru yw bod person yn cael ei wahardd rhag cael ei benodi os yw o fewn y flwyddyn flaenorol wedi bod mewn cyflogaeth â thâl Bwrdd Iechyd yng Nghymru, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru neu Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Ni fydd unigolyn ychwaith fel arfer yn gwasanaethu ar yr un pryd fel Aelod nad yw'n Swyddog (Cadeirydd, Is-Gadeirydd neu Aelod Annibynnol) ar Fwrdd mwy nag un corff GIG yng Nghymru.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd bod aelodaeth o Awdurdod Iechyd Arbennig yn swydd sy'n anghymhwyso rhag bod yn aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

6. YNGLŶN AG ADDYSG A GWELLA IECHYD CYMRU

Cefndir

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd ym mis Hydref 2018 a dyma'r corff gweithlu strategol ar gyfer GIG Cymru. Mae ei swyddogaethau yn cynnwys:

- Cudd-wybodaeth y gweithlu – AaGIC yw'r ffynhonnell ganolog, gydnabyddedig ar gyfer gwybodaeth a gwybodaeth am weithlu iechyd Cymru;
- Cynllunio'r gweithlu – Mae AaGIC yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer cynllunio'r gweithlu, gan weithio gyda byrddau iechyd/ymddiriedolaethau a Llywodraeth Cymru i gynhyrchu strategaeth flaengar i drawsnewid y gweithlu i ddarparu modelau iechyd a chymdeithasol newydd o ddarparu gwasanaethau;
- Comisiynu, cynllunio a darparu addysg – mae AaGIC yn defnyddio ei gyllid i sicrhau gwerth am arian a darparu gweithlu sy'n adlewyrchu anghenion gofal iechyd yn y dyfodol;
- Rheoli ansawdd – Mae AAc yn rheoli darpariaeth addysg a hyfforddiant gan sicrhau ei bod yn bodloni'r safonau gofynnol, a gwneir gwelliannau lle bo angen;
- Cefnogi rheoleiddio – Mae AaGIC yn chwarae rôl allweddol yn cynrychioli Cymru mewn cydweithrediad â rheoleiddwyr, gan weithio o fewn y fframwaith polisi a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae AaGIC hefyd yn ymgymryd â rolau cymorth rheoleiddiol penodol, yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru;
- Datblygu arweinyddiaeth – Mae AaGIC yn sefydlu'r cyfeiriad strategol a chyflawni datblygiad arweinyddiaeth ar gyfer staff o fewn GIG Cymru ar bob lefel;
- Gyrfaoedd ac ehangu mynediad – mae AaGIC yn darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gyrfaoedd iechyd a'r agenda ehangu mynediad, gan gyflwyno agenda barhaus i hyrwyddo gyrfaoedd iechyd;
- Gwella gweithlu – mae AaGIC yn darparu rôl arwain strategol ar gyfer trawsnewid a gwella'r gweithlu, ac yn cyflwyno o fewn ei swyddogaethau raglen barhaus i gyflawni'r rôl honno;
- Cymorth proffesiynol ar gyfer datblygiad gweithlu a sefydliadol (OD) yn GIG Cymru – mae AaGIC yn cefnogi'r gweithlu proffesiynol a'r proffesiwn OD yng Nghymru.